

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 25 Ionawr 2024 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving (Cadeirydd), Paul Keddie, Diane King, Terry Mendies, Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd) ac Andrea Tomlin

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW); Pennaeth Tai a Chymunedau (LG); Pennaeth Addysg (GD); Arweinydd Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg / Swyddog Diogelu (WW); Prif Reolwr Addysg (RT); Prif Lyfrgellydd (DO); Cydlynnydd Craffu (RE); Gweinyddwr Zoom (NPH) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

Hefyd yn bresennol - ar wahoddiad y Pwyllgor

Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd, y Cynghorydd Gill German, yn bresennol ar gyfer Eitem 5 ar y Rhaglen.

Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth, y Cynghorydd Emrys Wynne, yn bresennol ar gyfer Eitem 6 ar y Rhaglen

Arsylwyr -

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones

Aelodau Cyfetholedig Addysg –

Colette Owen a Neil Roberts yn bresennol ar gyfer Eitem 5 ar y Rhaglen

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelod Cyfetholedig Addysg, David Lloyd.

Dywedodd y Cydlynnydd Craffu wrth y Pwyllgor fod Mr Lloyd hefyd wedi penderfynu'n ddiweddar na fyddai'n ail sefyll i'w ail-ethol i Gorff Llywodraethu un o ysgolion uwchradd y Sir. Felly, byddai ei gyfnod fel rhiant-lywodraethwr ac fel eu cynrychiolydd cyfetholedig ar bwyllgorau craffu'r Cyngor hefyd yn dod i ben ddiwedd mis Ionawr 2024. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Lloyd am ei gyfraniadau yn ystod ei gyfnod fel cynrychiolydd cyfetholedig rhiant-lywodraethwr cynradd ac uwchradd ar bwyllgorau Craffu.

Croesawodd y Pwyllgor Colette Owen i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor craffu fel aelod cyfetholedig newydd yr Eglwys Gatholig ar bwyllgorau craffu'r Cyngor.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd yr Aelodau canlynol gysylltiad personol yn eitem 5, 'Hyrwyddo Presenoldeb yn yr Ysgol ac Ymgysylltiad mewn Addysg', yn eu rôl fel llywodraethwyr ysgol:

Y Cynghorydd Ellie Chard	Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol (AALI) yn Ysgol Tir Morfa.
Y Cynghorydd Bobby Feeley	Llywodraethwr AALI yn Ysgol Stryd Rhos
Y Cynghorydd Martyn Hogg	Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol VP Llanelwy
Y Cynghorydd Carol Holliday	Llywodraethwr Cyngor Tref/Cymuned ar gyrff llywodraethu Ysgol Penmorfa ac Ysgol Clawdd Offa
Y Cynghorydd Alan Hughes	Llywodraethwr yn Ysgol Caer Drewyn
Y Cynghorydd Paul Keddie	Llywodraethwr yn Ysgol Bryn Collen
Y Cynghorydd Diane King	Llywodraethwr yn Ysgol Christchurch
Neil Roberts	Llywodraethwr yn Ysgol y Parc
Y Cynghorydd Gareth Sandilands	Llywodraethwr AALI yn Ysgol Clawdd Offa

Datganodd y Cynghorydd Andrea Tomlin gysylltiad personol yn yr un eitem gan ei bod yn adnabod aelod o'r tîm sy'n darparu'r gwasanaeth.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau bryd gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynnydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023.

Materion yn codi

Eitem 6, y Diweddaraf ar Hunanasesiad Perfformiad y Cyngor - wrth ymateb i ymholiad a godwyd am argaeledd gwybodaeth ar fesurau cyrhaeddiad ysgol a sut yr adroddir arnynt yn y dyfodol, cytunodd y Pennaeth Addysg i holi swyddogion Llywodraeth Cymru.

Penderfynwyd: y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.

5 HYRWYDDO PRESENOLDEB YSGOL AC YMGYSYLLTIAD MEWN ADDYSG

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, y Cynghorydd Gill German adroddiad ar Hyrwyddo Presenoldeb yn yr Ysgol ac Ymgysylltiad Mewn Addysg (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Eglurodd nad oedd lefelau presenoldeb yn yr ysgol wedi cyrraedd y lefelau cyn y pandemig, felly roedd angen mwy o waith i wella ymgysylltiad a lefelau presenoldeb.

Rhodddwyd gwybodaeth ac eglurwyd y mesurau i gefnogi disgyblion diamddiffyn i ail-ymgysylltu gyda'u haddysg a dyfnhau dealltwriaeth o'r cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol wrth ymdrin â'r lefel gyfredol o bryder yn genedlaethol.

Roedd cyfraddau presenoldeb dros y tair blynedd ddiwethaf wedi gostwng ar hyd a lled Cymru a'r cyfartaledd cyffredinol ar draws awdurdodau oedd 88.9% Cynradd/Uwchradd wedi'u cyfuno. Roedd dadansoddiad manylach o'r patrwm presennol yn Atodiad 3 ac roedd y ffigurau hyn yn dangos bod ffigurau presenoldeb cyfartalog Sir Ddinbych yn 90.1% yn ystod tymor yr hydref 2023 o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 91.3%.

Roedd Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau yn ddiweddar i ddod â Chymru yn unol â Lloegr ble mae absenoldeb cyson yn cael ei ddiffinio fel colli 10% o sesiynau hanner diwrnod (30 sesiwn) yn hytrach na'r gyfradd absenoldeb gyfredol o 20% o absenoldeb cyson sy'n gyferth â 60 sesiwn hanner diwrnod y flwyddyn.

Roedd Sir Ddinbych wedi cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Addysg Awdurdod Lleol i ymdrin ag addysg ac ysgolion a'u cefnogi.

Roedd gwaith wedi bod yn cael ei wneud gydag ysgolion ar yr agwedd allweddol o deuluoedd oedd mewn trafferthion â thair gwael, byw mewn tloidi neu'n ei chael yn anodd gyda'r argyfwng costau byw, gan y byddai hyn yn cael effaith ar y plant. Byddai ymgysylltu ag ysgolion a theuluoedd yn hollbwysig i wella presenoldeb. Roedd swyddogion yn ymweld â theuluoedd mewn ymgais i ddeall pam nad oedd disgyblion yn mynd i'r ysgol ac yn ymgysylltu â'u haddysg, roedd cefnogaeth yn cael ei chynnig er mwyn annog ail-ymgysylltu a gwella lefelau presenoldeb.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd a'r swyddogion:

- Roedd ymyriadau'n hanfodol, ond y prif anawsterau oedd nad oedd lefelau staff yn cynyddu i ymdopi â chynnydd mewn galw a phwysau. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ychwanegol ond roedd wedi bod yn anodd penodi.
- Roedd ymyriadau'n amrywio o un ysgol i'r llall hefyd gan fod presenoldeb da mewn rhai ysgolion, oedd cystal os nad gwell na'r lefelau cyn y pandemig, ond roedd ar eraill angen cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol i wireddu gwelliannau.
- Roedd gwaith ar y gweill gyda theuluoedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol, rhai sy'n cael prydu ysgol am ddim, ffoaduriaid, teuluoedd Sipsi, Roma a theithwyr, plant sy'n derbyn gofal ac ati gan eu bod yn ddisgyblion â nodweddion diamddiffyn.
- O ran y rhai sy'n cael prydu ysgol am ddim, yn aml roedd gan y plant a theuluoedd hyn anghenion tai ac roedd yn bwysig bod y plant yn dod i'r ysgol i fod mewn amgylchedd diogel ac i gael un pryd poeth y dydd o leiaf.
- Roedd gan lawer o blant anghenion lles ac iechyd meddwl, ond nid oedd hyn yn esgus iddynt beidio â dod i'r ysgol. Roedd rhai plant hefyd yn gofalu am aelodau'r teulu, felly roedd yn bwysig bod eu hanghenion yn cael eu bodloni i'w galluogi i fynd i'r ysgol i wella eu canlyniadau i'r dyfodol. Mae pob plentyn

ar ei ennill o fynd i'r ysgol. Roedd dull Un Cyngor ar waith er mwyn annog presenoldeb, ymgysylltiad a lles disgyblion. Roedd hyn yn cael ei ymestyn i sefydliadau allanol hefyd, hynny ydi ymarferwyr iechyd sy'n rhan o fywydau plant a'u teuluoedd/gofalwyr.

- Roedd strategaeth gyfathrebu wedi ei llunio yn dilyn adroddiad Estyn a thrafodaethau mewn cynadleddau Penaethiaid. Roedd y strategaeth hon yn bwydo negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ac ati ar ba mor bwysig oedd hi i ddisgyblion fynd i'r ysgol yn rheolaidd, peidio cyrraedd yr ysgol yn hwyr a bod teuluoedd ddim yn mynd ar wyliau yn ystod y tymor ysgol. Nid bwriad y negeseuon hyn oedd gelyniaethu rhieni a theuluoedd, eu pwyslais oedd bod yr Awdurdod yn malio am bob plentyn, eu lles, eu dyheadau a'u dyfodol. Roedd y strategaeth gyfathrebu yn cael ei gwerthuso a'i hadolygu bob mis i sicrhau bod y dull yr oedd yn ei dargedu yn berthnasol i'r tueddiadau diweddaraf.
- Roedd gweithlu addysg y sir yn greadigol iawn wrth feddwl am ffyrdd o ddileu rhwystrau fel bod disgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu a bod ganddynt ddiddordeb ynddo.
- Roedd y cyllid ychwanegol gan LIC wedi galluogi'r Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg i ehangu o 4 i 7 aelod o staff. Er hynny, roedd y galw am gefnogaeth yn dal yn fwy na'r hyn y gallai'r tîm ei ddarparu ar hyn o bryd.
- Roedd dull 'ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol' wedi cael ei roi ar waith yn holl ysgolion y sir. Roedd y dull hwn wedi cael ei amlinellu mewn adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Medi 2023.
- Rhoddyd Rhybuddion Cosb Benodedig i rieni neu ofalwyr plant nad oedd yn mynd i'r ysgol gan eu bod yn torri'r gyfraith. Yn anffodus, nid oedd y Rhybuddion Cosb Benodedig yn effeithiol bob amser ond dyma'r drefn oedd ar waith gan mai dyma'r canllawiau presennol i'w dilyn. Dim ond os nad oes unrhyw ddewis arall oedd y Rhybuddion yn cael eu rhoi, pan oedd pob ffordd arall o gyfathrebu, ymgysylltu ac annog rhieni neu ofalwyr wedi methu.
- Roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn yr wythnos flaenorol ar 'Wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd' yn cynnwys nifer o argymhellion i ysgolion, awdurdodau addysg lleol a hefyd i Lywodraeth Cymru. Roedd Sir Ddinbych a'i hysgolion eisoes yn defnyddio mwyafrif y dulliau a restrwyd yn yr argymhellion, ond byddai'n datblygu rhai ohonynt ymhellach eto yn y dyfodol.
- Ni fyddai'r cyllid ychwanegol trwy'r Grant Addysg Awdurdod Lleol yn gallu cael ei ddefnyddio ar gludiant i'r ysgol i fyfyrwyr. Roedd telerau ac amodau'r cyllid hwn yn nodi mai dim ond at ddibenion lles a chefnogaeth addysgol oedd i gael ei ddefnyddio.
- Roedd LIC wrthi'n adolygu ei bolisi cludiant i'r ysgol ar hyn o bryd, o ran y pellter cymwys o gartref i ysgol agosaf fwyaf addas disgyblion. Rydym yn dal i aros am ganlyniad yr adolygiad hwn.
- Byddai'r newidiadau arfaethedig i'r trothwy 'absenoldebau parhaus' yn rhoi mwy o bwysau ar staff ysgolion, staff addysg a gwasanaethau lles addysg. Byddai disgwyl i Lywodraeth Cymru drafod gweithredu'r newidiadau hyn a'r effaith a ragwelir ar awdurdodau addysg lleol a staff â deiliaid portffolio addysg a swyddogion addysg yng Nghymru. Roedd Sir Ddinbych yn dibynnu llawer iawn ar gyllid grant LIC i dalu am wasanaethau lles addysg.

- Roedd yn well gan yr Awdurdod fod yn rhagweithiol a defnyddio dull o atal yn hytrach nag ymyrryd o reoli presenoldeb yn yr ysgol. Roedd pob ysgol yn dilyn system godio genedlaethol, oedd yn darparu data am y rhesymau dros yr absenoldeb e.e. 'M' (apwyntiad meddygol) 'S' (neu 'I' yn Saesneg am salwch - hunan-ardystiad gan riant/gofalwr). Os oedd cod 'N' (dim rheswm wedi'i roi), byddai'r ysgol yn cael ei holi, gan y dylai fod yna reswm am bob absenoldeb. Roedd ysgolion yn cael eu monitro bob dydd/wythnos/mis/tymor drwy'r System Rheoli Gwybodaeth Ysgol.

Holodd Aelodau a fyddai'n bosibl llunio ffeithlun fyddai'n dangos yn syml faint a goblygiadau diffyg presenoldeb disgyblion yn ysgolion y sir, fel y gallant ei rannu'n hawdd â phreswylwyr i dynnu sylw at unrhyw broblemau a chael eu cefnogaeth i annog disgyblion i ymgysylltu â'u haddysg. Wrth ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor am beth allai aelodau etholedig ei wneud yn eu rôl fel Rhieni Corfforaethol i gefnogi swyddogion ac annog disgyblion i fynd i'r ysgol ac ymgysylltu â'u haddysg, dywedodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion y byddent yn ddiolchgar pe gallai'r aelodau atgyfnerthu a rhannu'r negeseuon sy'n cael eu hanfon gan y Gwasanaeth Addysg a Thîm Cyfathrebu'r Cyngor yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r ysgol â theuluoedd yn eu hardal ac ar gyrrff llywodraethu'r ysgolion yr oeddent yn aelodau ohonynt. Wrth rannu'r negeseuon hyn, gofynnwyd i aelodau bwysleisio bod y Cyngor yn annog presenoldeb yn yr ysgol ac ymgysylltu nid oherwydd eu bod yn beio teuluoedd am beidio â sicrhau bod eu plant yn mynd i'r ysgol, ond oherwydd eu bod yn malio am ddisgyblion a'u teuluoedd.

Ar y pwynt hwn, diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Arweiniol a'r holl swyddogion am fynychu ac am eu holl waith.

Ar ddiwedd y drafodaeth drylwyr:

Penderfynwyd: yn amodol ar y sylwadau uchod –

- (i) derbyn yr adroddiad ynghyd â'r wybodaeth a rannwyd yn ystod y cyfarfod a chydabod yr ymdrechion a wnaed hyd yma i hyrwyddo presenoldeb yn yr ysgol ac ymgysylltiad disgyblion yn eu haddysg; a***
- (ii) gofyn am i adroddiad arall gael ei gyflwyno i'r aelodau ym mis Medi 2024 yn trafod y cynnydd a wnaed i wella cyfraddau presenoldeb ac ymgysylltiad ag addysg yn holl ysgolion y sir yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru.***

**Ar y pwynt hwn (11.30am), cafwyd egwyl o 15 munud.
Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.45am.**

6 SAFONAU A PHERFFORMIAD Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth, y Cynghorydd Emrys Wynne, adroddiad Safonau a Pherfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd (dosbarthwyd ymlaen llaw). Fel rhan o'i gyflwyniad, pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol fod y gwasanaeth wedi perfformio'n dda yn ystod 2022-23 ond cydnabu fod ganddo

bryderon am allu'r Gwasanaeth i gynnal y perfformiad uchel hwn yn y tymor canolig oherwydd y sefyllfa ariannol yn y dyfodol.

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth ynghylch perfformiad y Cyngor yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20 (wedi'i ymestyn i 21-23) a'r cynnydd a wnaed i ddatblygu llyfrgelloedd fel manau lles a chadernid unigol a chymunedol.

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â Gwasanaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23, oedd yn dal o fewn y cyfnod Covid. Ni ddisgwylir y bydd effaith y newidiadau arfaethedig ar berfformiad y gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siop Un Alwad yn glir tan fis Ebrill 2024 ar y cynharaf.

Disgwylir y bydd Safonau Cenedlaethol Newydd yn cael eu sefydlu gyda chyhoeddiad 7fed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, sydd â dyddiad gweithredu arfaethedig o 1 Ebrill 2025.

Cyflwynodd y Pennaeth Tai a Chymunedau, Liz Grieve y Prif Lyfrgellydd newydd, Deborah Owen i'r Pwyllgor.

Cyn y trafodaethau, eglurodd y Pennaeth Tai a Chymunedau nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio at y toriadau i oriau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn Sir Ddinbych. Yna aeth ymlaen i amlinellu'r broses a ddilynwyd i gynnal yr asesiad, gan bwysleisio bod y Cyngor yn perfformio'n dda dan y safonau presennol. Roedd perfformiad wedi gwella'n fawr wedi i'r cyfyngiadau Covid ddod i ben, er nad oedd y cyhoedd yn defnyddio cymaint ar gyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd ers y pandemig. Roedd darpariaeth gwasanaeth eraill wedi cael eu haddasu i ymateb i anghenion y cyhoedd wedi'r pandemig.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- Nad oedd Adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru yn cymharu gwasanaeth llyfrgelloedd awdurdodau lleol unigol yn erbyn ei gilydd.
- Roedd y gwasanaeth yn cynnig ehangu ymgysylltiad digidol yn y gwasanaeth llyfrgelloedd, o bosibl drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr i helpu i wella sgiliau digidol preswylwyr a chefnogi sefydliadau i gael cyllid i helpu i gefnogi rhai nad ydynt yn deall TG i gael a gwella eu sgiliau TG mewn amgylchedd 'cyfeillgar/cefnogol'.
- Nid oedd y gwasanaeth yn defnyddio llawer ar wirfoddolwyr ar hyn o bryd.
- Yn y dyfodol, byddai'r gwasanaeth yn archwilio cyfleoedd i greu mwy o incwm gan sefydliadau allanol er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau er gwaetha'r toriadau i gyllidebau. Byddai hefyd yn gofyn am wybodaeth gan Wasanaethau Llyfrgell eraill ar ba gamau oeddent wedi eu cymryd i geisio cynnal gwasanaethau er gwaetha'r toriadau i gyllidebau.
- Er nad oedd Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion bellach, roedd staff y llyfrgelloedd yn gweithio'n agos gydag ysgolion y sir ac roeddent wedi ymgysylltu â disgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn ddiweddar er mwyn eu hannog i ymweld â'u llyfrgell leol a'i defnyddio fel cyfleuster ymchwil. Roedd disgyblion yn ystyried eu llyfrgelloedd ysgol fel manau diogel ac roedd yn galonogol gweld cymaint o ddisgyblion yn gwirfoddoli i helpu ynddynt.

- Fel rhan o'i waith cynllunio i'r dyfodol, bydd y gwasanaeth yn cynnal arolwg yn gofyn am farn y cyhoedd a'u syniadau am y math o wasanaethau yr hoffent weld eu llyfrgelloedd lleol yn eu darparu.
- Nid oedd gan y gwasanaeth wybodaeth fanwl am faint o bobl oedd yn defnyddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd a pha wasanaethau'n benodol, ond gellid rhoi data ar nifer yr aelodau o ward oedd yn aelodau gweithredol o lyfrgell.

Cadarnhawyd y byddai effaith y newidiadau i oriau agor llyfrgelloedd yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2024/25, roedd adroddiad 2023/24 yn seiliedig ar yr oriau agor a'r defnydd presennol. Holodd yr aelodau pam bod oedi cyn cyflwyno'r adroddiad ac eglurwyd bod y Cyngor yn rhoi'r wybodaeth i Adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin bob blwyddyn ac yn cael ymateb gan yr Adran ym mis Rhagfyr fel arfer, a dyna pryd y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu bob blwyddyn. Gofynnodd yr aelodau am i Adroddiad Gwybodaeth gael ei ddarparu yng nghanol 2024 yn cynnwys manylion am ystadegau perfformiad drafft y gwasanaeth fel y'i cyflwynwyd i Adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Fframwaith, cyn derbyn Adroddiad Asesiad Blynyddol 2023/24 yn erbyn y Safonau ym mis Ionawr 2025.

Byddai gweithgor yn cael ei sefydlu cyn bo hir i asesu effaith y gostyngiad yn oriau agor y Llyfrgell/Siop Un Alwad ac i archwilio datrysiadau eraill i wella darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol. Cyn bo hir, gofynnir i bob Grŵp Ardal Aelodau benodi aelod i wasanaethu ar y Grŵp hwn.

Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol, er bod oriau agor y llyfrgelloedd yn cael eu lleihau fel rhan o strategaeth y Cyngor i osod cyllideb gytbwys, roedd hefyd yn bwysig cofio na fyddai unrhyw lyfrgell yn cau, a byddai'r adeiladau'n dal ar gael i'r gymuned eu defnyddio.

Yn dilyn trafodaeth ddwys:

Penderfynwyd: yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (i) cymeradwyo a chydabod perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru;***
- (ii) gofyn am 'Adroddiad Gwybodaeth' yng nghanol 2024 yn cynnwys manylion am ystadegau perfformiad drafft y gwasanaeth fel y'i cyflwynwyd i Adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Fframwaith, cyn derbyn Adroddiad Asesiad Blynyddol 2023/24 yn erbyn y Safonau ym mis Ionawr 2025; a***
- (iii) bod darganfyddiadau cychwynnol y Gweithgor sy'n cael ei sefydlu i fesur effaith y gostyngiad yn oriau agor y Llyfrgell/Siop Un Alwad ac i archwilio cynigion neu ddatrysiadau eraill i wella neu ehangu darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn niwedd 2024.***

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) er mwyn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen waith.

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar gyfer 7 Mawrth 2024, gyda phedair eitem, a chyfarfod ar 18 Ebrill 2024 gyda 3 eitem.

Roedd yr Atodiad yn cynnwys copi o ffurflenni Cynigion Craffu'r Aelodau ac anogwyd yr aelodau i'w cwblhau os oedd ganddynt unrhyw eitemau fyddai'n addas i graffu arnynt. Byddai'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu (GCIGC) yn cyfarfod yr wythnos ganlynol i ystyried unrhyw geisiadau a gafwyd. Yn eu cyfarfod diwethaf ym mis Tachwedd 2023, roedd y GCIGC wedi ychwanegu un eitem at y rhaglen waith i'w hystyried ym mis Tachwedd 2024, oedd yn ymwneud â 'phrosesau a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer ymgeisio am gyllid grant gwerth uchel'.

Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet yn Atodiad 3 er gwybodaeth.

Roedd Atodiad 4 yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ar argymhellion y Pwyllgor o'i gyfarfodydd blaenorol.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at baragraff 4.8 yr adroddiad oedd yn dangos y rhesymeg dros beidio â chyflwyno adroddiadau Monitro Perfformiad y Cynllun Corfforaethol mor aml i'r Pwyllgor o hyn ymlaen. Pwysleisiwyd mai dim ond adroddiadau Chwarter 1 a 3 oedd yn cael eu tynnu'n ôl. Lluniwyd yr adroddiadau hyn er gwybodaeth i'r Pwyllgor ac nid oeddent yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i'w trafod. Byddai adroddiadau Chwarter 2 a 4 / adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn parhau i gael eu cyflwyno i'w trafod yn ffurfiol. Yn y cyfamser, pe bai'r aelodau'n dymuno gwneud eu gwaith ymchwil eu hunain ar berfformiad y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau neu olrhain cynnydd prosiectau penodol, gallent wneud hynny drwy ddefnyddio'r system rheoli perfformiad corfforaethol, Verto. Gallai pob aelod ofyn am fynediad at system Verto.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

Penderfynwyd: yn amodol ar gynnwys yr eitemau a ychwanegwyd yn ystod y trafodaethau yn y cyfarfod, i gadarnhau Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor fel roedd wedi'i nodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

8 ADBORTH GAN CYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dywedodd y Cadeirydd, y cynrychiolydd Craffu ar Fwrdd Prosiect Marchnad y Frenhines, nad oedd y Bwrdd wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

Rhoddodd y Cynghorydd Holliday, cynrychiolydd y Pwyllgor ar Grŵp Her Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaeth Digartrefedd, drosolwg o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod Her Gwasanaeth diweddar. Roedd amodau lleety a'r costau cynyddol i gartrefu teuluoedd digartref yn rhan allweddol o'r trafodaethau.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd nad oedd y Grŵp Craffu Cyfalaf wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Roedd ei gyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer y diwrnod canlynol a chytunodd y Cynghorydd Sandilands i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y trafodaethau yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm